# PEIRIANNEG L1

**Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 1 BTEC mewn Peirianneg**

| | |
|---|---|
| **Pryd gaiff ei gyflwyno:** | Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd |
| **Teitl y Cymhwyster:** | Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 1 BTEC mewn Peirianneg |
| **Corff Dyfarnu:** | BTEC |

**Cyflwyniad i'r pwnc**
Mae'r cyrsiau yn darparu llwybr gwahanol i ennill cymwysterau a chael profiad realistig o fod mewn amgylchedd diwydiannol wrth i ddysgwr barhau i fod yn yr ysgol. Bydd y sgiliau a gaiff eu meithrin yn amhrisiadwy i unrhyw ddarpar beiriannydd. Mae'r cwrs yn benodol yn cynnig sylfaen dda i'r rhai hynny sy'n dymuno cael gwaith yn y diwydiant a symud ymlaen i brentisiaeth yn y Sector Peirianneg.

**Cynnwys y Cwrs**
2 uned orfodol a 3 o'r unedau dewisol:

**Uned A1 - Bod yn Drefnus**
Bydd dysgwyr yn meithrin technegau allweddol i helpu i drefnu eu gwaith a'u blaenoriaethau a rheoli eu hamser yn effeithiol. Mae'r uned hon yn cael ei hasesu trwy gwblhau portffolio.

**Uned A2 - Llunio Cynllun Datblygiad Personol**
Bydd dysgwyr yn meithrin y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu, nodi cyfleoedd dilyniant a chreu cynllun i'w galluogi i gyrraedd yno.

**ENG 5 - Defnyddio Offer Llaw i Weithgynhyrchu Cynnyrch wedi'i Beiriannu**
Bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau ymarferol wrth ddefnyddio offer llaw i weithgynhyrchu cynnyrch wedi'i beiriannu, fel bocs offer neu glamp gwneuthurwr offer.

**ENG 8 - Cydosod Cylchedau Electronig**
Bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau i osod cylchedau electronig.

**ENG12 - Cynnal Tasgau Gwasanaeth Arferol ar Gerbyd Modur**
Bydd dysgwyr yn meithrin y sgiliau ymarferol sydd eu hangen i baratoi ar gyfer tasgau cynnal a chadw arferol a wneir wrth wasanaethu cerbyd modur a chwblhau'r tasgau hynny.

**Costau**
Mae disgwyl i ddysgwyr brynu eu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) eu hunain. Gellir eu prynu trwy'r Coleg am oddeutu £25.00.

Dolen at wefan cyflenwr y coleg:
[Peirianneg Macron]